# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Mawrth 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Cyfeiriad e-bost:** | **aled@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Achos Busnes Strategol Cartref Gofal Penyberth, Penrhos** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Achos Busnes Strategol yn Atodiad A, yn ddarostyngedig i hynny, i

1.2 Awdurdodi y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru i geisio am £14.6miliwn o arian Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) i greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penyberth, Penrhos, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol.

### 2 CEFNDIR A CHYD-DESTUN

2.1 Bydd aelodau'n ymwybodol bod Cyngor Gwynedd eisoes yn ddarparwr gofal preswyl ar gyfer ein trigolion. Rydym wedi gweld ei fod yn rhan bwysig o'n cyfrifoldeb fel Cyngor tuag at ein trigolion mwyaf bregus. O ran y ddarpariaeth breswyl i bobl hŷn, ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu 50% o'r ddarpariaeth gyfan, gyda'r sector annibynnol yn darparu'r gweddill.

2.2 Serch hynny, fel bydd aelodau'n ymwybodol, mae'r holl ddarpariaeth cartrefi nyrsio ar gyfer ein trigolion yn cael ei ddarparu'n llwyr gan y sector annibynnol. Y prif reswm am hyn yw nad yw wedi bod yn gyfreithiol bosib i Awdurdodau Lleol fynd ati i ddarparu gofal nyrsio. Rydym felly'n llwyr ddibynnol ar y sector annibynnol i ddarparu'r gofal nyrsio angenrheidiol hwn i'r boblogaeth.

2.3 Mae barn y Llywodraeth o ran yr angen i allanoli darpariaethau yn genedlaethol wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. Bydd aelodau'n gyfarwydd â'r Papur Gwyn ar Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth sydd yn nodi'r budd o gael marchnad gofal mwy cytbwys.

2.4 Fe gaeodd cartref gofal Penrhos yn 2020, ac mae'r safle wedi trosglwyddo i Gymdeithas Dai Clwyd Alyn ac mae cytundeb i drosglwyddo 2 acer o dir i Gyngor Gwynedd ar gyfer adeiladu cartref gofal newydd ar y safle.

2.5 Fel sydd wedi'i dystiolaethu yng ngwaith yr Asesiad Anghenion Poblogaeth mae cyfanswm o 130 o welyau preswyl yn Ardal Llŷn ac Eifionydd, ond ar ôl i Gartref Nyrsio Penrhos gau ddechrau Rhagfyr 2020 does dim darpariaeth o welyau nyrsio yn ardal Llŷn. Ymddengys y data mwyaf diweddar fod nifer cynyddol o'n trigolion mewn lleoliadau nyrsio y tu allan i Wynedd, a bydd nifer o'r rhain oherwydd bod prinder gwelyau yn eu cymuned.

2.6 Cyflwynwyd adroddiad i chi ar 19 Gorffennaf 2022 i gymeradwyo'r achos dros newid i greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penyberth, Penrhos, mewn partneriaeth gyda BIPBC.

2.7 Yn yr adroddiad hwnnw fe amlinellwyd y farn gyfreithiol, 'ni all y Cyngor fynd ati ar ben ei hun i ddarparu gofal nyrsio. Mae'n rhaid cael caniatâd y Bwrdd Iechyd neu fod y Cyngor yn gweithredu mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd'.

2.8 Mae trafodaethau parhaus gyda'r Bwrdd Iechyd yn nodi eu cefnogaeth mewn egwyddor i'r newid ac yn ddibynnol wrth gwrs ar achos busnes hyfyw. Bydd y Bwrdd Iechyd yn trafod yr achos busnes yn ystod mis Mawrth.

## 3. YR ANGEN AM NEWID

### Crynodeb Gweithredol

3.1 Ar hyn o bryd mae 'na dan-ddarpariaeth o lefydd mewn cartrefi nyrsio yng Ngwynedd, sy'n waeth yn ardal Llŷn, sydd heb ddarpariaeth nyrsio. Fel comisiynwyr, mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd felly'n awyddus i ymchwilio i sut y gallan nhw wella'r sefyllfa bresennol drwy ddod yn ddarparwyr cartref gofal gyda nyrsio eu hunain.

3.2 Bydd y model partneriaeth newydd rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Besti Cadwalader (BIPBC) yn cefnogi'r gwaith o ail-gydbwyso'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (ar gyfer ardal Gwynedd) drwy gynyddu darpariaeth o'r sector cyhoeddus / nid er elw sy'n rhoi ffocws ar ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb.

3.3 Bydd y Bartneriaeth yn anelu i gynnig cartref gofal gyda nyrsio newydd, i'w adeiladu ar safle Penyberth, Penrhos i ddarparu 32 o welyau preswyl, y byddai 24 ohonynt yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gofal preswyl dementia, ynghyd â 25 gwely nyrsio y byddai 15 ohonynt yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gofal nyrsio dementia.

3.4 Mae'r Achos Amlinellol Strategol hwn yn edrych i ymgeisio am £14.6miliwn o gyllid Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) gan Lywodraeth Cymru i adeiladu'r cartref gofal newydd, a fyddai wedyn yn cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd a BIPBC drwy ffrydiau ariannu refeniw cyfredol.

3.5 Byddai'r cartref gofal yn cael ei adeiladu ar safle Penyberth sy'n gartref i dai newydd gyda datblygiadau gofal a wneir gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn. Bydd y ddau brosiect yn gyd-ddibynnol.

3.6 Mae Cartref Gofal gyda Nyrsio Penyberth, Penrhos yn fath newydd o bartneriaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws y sector i sicrhau'r canlyniadau gorau i breswylwyr a chymunedau lleol. Gweithredir y prosiect fel partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader.

3.7 Mae darpariaeth leol, gynaliadwy ac o ansawdd mewn cartrefi gofal yn rhan hanfodol o unrhyw system iechyd a gofal. Heb ddarpariaeth o'r fath, ni fydd unigolion yn gallu sicrhau'r iechyd a'r lles gorau posib; a bydd y system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd yn aneffeithlon ac aneffeithiol wrth gyflawni canlyniadau iechyd y boblogaeth ehangach.

3.8 Fel comisiynwyr darpariaeth gofal, mae angen felly i awdurdodau a byrddau iechyd lleol i sicrhau bod ganddynt y nifer priodol o gartrefi yn y lleoliad cywir a darparu'r lefel ac ansawdd y gofal cywir.

3.9 Ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn yng Ngwynedd, yn fewnol, mae'r ddarpariaeth yn y sector cyhoeddus wedi bod yn gonglfaen i wasanaethau preswyl a phreswyl dementia o fewn cartrefi gofal. Ond ar gyfer darpariaeth nyrsio mewn cartrefi gofal, mae'r holl ddarpariaeth yn cael ei ddarparu o fewn y sector annibynnol ar hyn o bryd.

3.10 Ar hyn o bryd mae 'na dan-ddarpariaeth o leoliadau cartrefi nyrsio yng Ngwynedd, sy'n waeth mewn rhai rhannau o Wynedd, sef Llŷn a Meirionnydd. Fel comisiynwyr, mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd felly'n awyddus i ymchwilio sut y gallan nhw wella'r sefyllfa bresennol drwy ddod yn ddarparwyr cartref gofal gyda nyrsio eu hunain.

3.11 Mae gweledigaeth, amcanion a chwmpas y prosiect yn cyd-fynd yn agos ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)** - mae'r prosiect partneriaeth gydweithredol a ddisgrifir yn yr Achos Busnes Strategol (ABS) hwn yn cyd-fynd yn arbennig o dda â'r pum ffordd o weithio, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Amcanion Buddsoddi'r prosiect sy'n cael eu disgrifio yn yr ABS hwn
- **Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** – bydd y bartneriaeth yn mynd i'r afael â nodau allweddol gweithio ar y cyd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau i ddarparu'r gofal yn nes at adref
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** - mae'r ddeddf yn nodi'r angen i hybu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i hybu integreiddio gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol, gyda chaniatâd neu weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, i ddarparu gofal preswyl a nyrsio
- **Ail-gydbwyso Gofal a Chefnogaeth** – mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth i ail-gydbwyso'r farchnad gofal a chymorth i ffwrdd o'r gost i ansawdd ac o allbynnau i ganlyniadau.

3.12 Maent hefyd yn cyd-fynd â nifer o ddogfennau strategol a pholisi y cyfeirir atynt isod, sydd yn cael effaith a dylanwad sylweddol ar gyfeiriad a dyluniad gwasanaethau yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac ar gyfer y datblygiad hwn, gan gynnwys:


- Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 – 2025
- Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
- Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) – Blaenoriaeth 2
- Byw’n Iach, Aros yn Iach: Gweithio mewn partneriaeth i wella iechyd a darparu gofal rhagorol ar draws Gogledd Cymru.

**Asesiad o anghenion poblogaeth Gwynedd**

3.13 Mae cyfanswm o 130 o welyau preswyl yn Ardal Llŷn ac Eifionydd, ond ar ôl i Gartref Nyrsio Penrhos gau ddechrau Rhagfyr 2020 does dim darpariaeth o welyau nyrsio yn ardal Llŷn.

3.14 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar gartrefi yn yr ardaloedd y byddent yn symud iddynt. Gwyddom hefyd fod rhai unigolion yn gorfod chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd ac mae'n gallu bod yn anoddach i dderbyn gwasanaeth yn y Gymraeg.

3.15 Mae modd darparu 75% o ddarpariaeth breswyl Llŷn yn ardal Dwyfor, ffigwr sy'n disgyn i 45.5% ar gyfer darpariaeth nyrsio. Yn y Sir, gellir derbyn 58.7% o'r ddarpariaeth nyrsio yn yr ardal, felly mae nifer mwy o drigolion Llŷn yn gorfod teithio o'u cartref i gael gofal nyrsio. Mae'n debyg hefyd eu bod yn gorfod teithio ymhellach er mwyn cael mynediad. Mae ardal Llŷn yn gallu diwllau 75% o'r ddarpariaeth breswyl o fewn ardal, sy'n gymharol â chyfartaledd y Sir o 75%.




3.16 Mae’r Cyngor hwn yn adolygu’r ddarpariaeth cartrefi gofal ar draws Gwynedd yn barhaus a bydd effaith y datblygiad hwn ym Mhenyberth yn cael ei fonitro yn yr ardal gyfagos.

## 4. MATERION GWEITHLU

4.1 Cydnabyddir yn genedlaethol fod y sector gofal yn wynebu heriau enfawr o ran recriwtio a chadw staff. Bydd y prosiect hwn yn edrych ar arferion gorau'r gweithlu er mwyn sicrhau staff o ansawdd uchel yn ardal Llŷn.

4.2 Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio yn rheolaidd ac yn defnyddio amrywiol ddulliau i wneud hynny. Mae'r ymgyrchoedd yn cael eu cynnal yn lleol trwy dargedu ardaloedd a threfi penodol.

4.3 Ochr yn ochr â'n partneriaid mae Cyngor Gwynedd yn gyson yn ceisio newid y canfyddiad sy'n bodoli o ran swyddi yn y sector gofal. Mae Cyngor Gwynedd yn cymryd cyfleoedd i

geisio amlygu'r ystod eang o gyfleoedd sydd yn bodoli, hyblygrwydd y contractau sydd ar gael a hefyd y manteision i staff.

4.4 Un agwedd yn arbennig y dylid ei amlygu yw'r cydweithio sy'n mynd rhagddo gyda phartneriaid i geisio datblygu llwybrau gyrfa ymhellach o fewn y maes. Penodwyd swyddog gan Gyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2021 i arwain ar yr agwedd hon a hefyd i gefnogi'r rhaglen waith o ran cynnal digwyddiadau, gwahanol ddulliau marchnata, creu deunydd pwrpasol, a nodi cyfleoedd i wella prosesau gwaith.

## 5. Y WELEDIGAETH

5.1 Mae Cymuned Llŷn yn adnabyddus am ei gwytnwch a'i hannibyniaeth a ddeillia allan o'r ddaearyddiaeth a'r wledig gyfagos. Yn draddodiadol, mae plant, sydd bellach yn oedolion wedi ymgartrefu gerllaw yn agos at aelodau'r teulu sydd wedi golygu bod teuluoedd wedi gallu camu i'r adwy i ddarparu gofal i berthnasau hŷn pan fo angen. Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn dod yn llai cyffredin ac yn debygol o barhau. Mae'n rhaid ystyried yr elfen hon o angen heb ei diwallu o fewn y model gwasanaeth cyffredinol.

5.2 Mae cydnabyddiaeth eang hefyd fod hen fodel gofal Cartref Pwylaidd Penrhos wedi bod yn arloesol iawn o ran cadw ei breswylwyr yn dda, yn annibynnol, ac allan o ofal. Bydd yn bwysig cynnal ac adeiladu ar yr ethos hwn o ran y cynlluniau ar gyfer y safle i'r dyfodol.

5.3 Dylai'r model gwasanaeth:

- Gynnal yr ethos cyffredinol presennol - hyrwyddo ansawdd bywyd, cynnal annibyniaeth, sicrhau lles a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal dibynnol am gyn hired â phosib;
- Ddarparu sbectrwm o ofal â chymorth - o ddibyniaeth fach iawn (fflatiau byw annibynnol) i gynorthwyo byw, gyda mynediad at ofal camu i fyny/i lawr, i ofal preswyl ac i nyrsio a gofal diwedd oes, fel y penderfynir gan anghenion unigolyn;
- Hyrwyddo dull hyblyg o fynd i'r gwelyau cartref gofal gan ganiatáu hyblygrwydd yn nefnydd gwelyau lle bo modd cwrdd ag anghenion lleol yn hytrach na darpariaeth gwely sefydlog / dynodedig, a thrwy hynny wella effeithlonrwydd;
- Gydnabod pwysigrwydd perthnasoedd (contractio) â'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau gwytnwch gwasanaethau (er enghraifft Iechyd Meddwl);
- Sicrhau bod y ddarpariaeth gyffredinol yn ateb galw'r dyfodol, sy'n ystyried rhagamcanion poblogaeth pobl hŷn a'r angen nas diwallwyd ar hyn o bryd.

5.4 Gweledigaeth y prosiect yw math newydd o bartneriaeth, sy'n meddwl yn wahanol am y berthynas rhwng gwasanaethau a'r gymuned ar gyfer y dyfodol.

5.5 Amcanion Buddsoddi'r prosiect yw:

| Amcanion Buddsoddi | |
|---|---|
| **Un** | I gefnogi ail-gydbwyso'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (ar gyfer ardal Gwynedd) drwy gynyddu darpariaeth o'r sector gyhoeddus / nid er elw sy'n canolbwyntio ar ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. |
| **Dau** | I gefnogi'r ddarpariaeth o ofal yn nes at adref drwy wella hygyrchedd gofal preswyl a nyrsio, gan sicrhau bod darpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| **Tri** | I gefnogi cynaliadwyedd darpariaeth gofal preswyl a nyrsio lleol trwy ddull cydweithredol, partneriaeth a fydd yn integreiddio â'r sbectrwm ehangach o ofal a ddarperir o safle Penyberth, Penrhos. |
| **Pedwar** | I ddatblygu model gweithlu arloesol a fydd yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru a chreu cyfleon ar gyfer hyfforddiant drwy'r Gymraeg. |
| **Pump** | I sicrhau llety wedi ei ddylunio'n bwrpasol a fydd yn cwrdd ag anghenion gofal unigolion nawr ac i'r dyfodol. |
| **Chwech** | I sicrhau gwerth am arian drwy ddefnyddio adnoddau yn effeithlon a darparu llety amgylcheddol sensitif sy'n garbon niwtral. |

5.6 Gofynion allweddol y gwasanaeth yw'r newidiadau i'r gwasanaeth sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion buddsoddi a ddisgrifir uchod. Crynhoir gofynion allweddol y gwasanaeth ar gyfer yr achos busnes hwn yn y tabl isod.

5.7 Dylid dylunio'r safle gyda hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol mewn golwg.

| | Anghenion | Dymunol |
|---|---|---|
| **Gofynion preswyl** | ▪ Byddai 32 gwely ar gyfer gofal dementia<br>▪ 2 wely ar gyfer gofal seibiant | ▪ Lle ar y safle i ddarparu ar gyfer anghenion y dyfodol.<br>▪ Ystyried rheolaeth Covid, sy'n hawdd ynysu trigolion, cylchrediad aer, rheoli haint.<br>▪ Ystyried gofynion RNIB.<br>▪ Cyfleusterau toiledau yn agos i ardaloedd cymunedol ond hefyd yn breifat.<br>▪ Agosrwydd at orsaf nyrsio a staffio.<br>▪ Ystyried dyluniad ar gyfer trigolion dementia, cyferbynnedd lliw ayyb.<br>▪ Gofod diogel y tu allan sydd a diddordeb gweledol. |
| **Gofynion gofal nyrsio** | ▪ 25 gwely y byddai 15 ohonynt yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gofal nyrsio dementia<br>▪ 2 wely ar gyfer gofal nyrsio seibiant | ▪ Dull dylunio modiwlar o ganiatáu i Ystafelloedd Sengl a bod yn ddementia gyfeillgar.<br>▪ Gardd bwrpasol ar gyfer cerdded ac ymarfer corff / cadw'n heini.<br>▪ Dylunio cadarn ar gyfer ymddygiad heriol.<br>▪ Dylunio generig i fodloni'r gofynion ar gyfer Dementia a Nyrsio Cyffredinol er mwyn sicrhau hyblygrwydd o ran defnydd, ac addasu mewn newidiadau i'r galw a'r anghenion. |

Nid yw'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r angen am dai gofal ychwanegol, fflat gofal camu i lawr, tai gwarchod, gwelyau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) gan y byddent yn ffurfio rhan o Brosiect Ailddatblygu Penrhos. Byddai gwelyau diwedd oes yn cael eu cynnig yn ysbyty Bryn Beryl.

5.8 Mae'r Meini Prawf Buddion yn cyd-fynd â'r Amcanion Buddsoddi ac fe'u dangosir isod. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yng ngham nesaf yr achos busnes.

| Amcanion Buddsoddi | | Prif feini prawf buddion |
|---|---|---|
| 1 | I gefnogi ail-gydbwyso'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (ar gyfer ardal Gwynedd) drwy gynyddu darpariaeth o'r sector gyhoeddus / nid er elw sy'n canolbwyntio ar ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | ▪ Sicrhau darpariaeth nyrsio yn yr ardal leol o fewn ffioedd ALI a CHC<br>▪ Darpariaeth iechyd a gofal hyblyg ("gofal di-dor" fel y'i disgrifir yn Cymru Iachach)<br>▪ Gall ymagwedd bartneriaeth rhwng iechyd ac awdurdod lleol ddarparu cyfleoedd pellach ar gyfer dulliau integredig |
| 2 | I gefnogi'r ddarpariaeth o ofal yn nes at adref drwy wella hygyrchedd gofal preswyl a nyrsio, gan sicrhau bod darpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg. | ▪ Does neb yn aros yn hirach nag sydd ei angen arnynt mewn gofal cleifion mewnol acíwt. Does dim "oedi wrth drosglwyddo gofal" oherwydd diffyg darparu gwelyau preswyl a nyrsio |
| 3 | I gefnogi cynaliadwyedd darpariaeth gofal preswyl a nyrsio lleol trwy ddull cydweithredol, partneriaeth a fydd yn integreiddio â'r sbectrwm ehangach o ofal a ddarperir o safle Penyberth, Penrhos. | ▪ Trwy gael darpariaeth yn y sector cyhoeddus ym maes nyrsio – y gallu i ddeall yn fwy dwys bwysau'r sector a'r gallu i gefnogi darparwyr llai |
| 4 | I ddatblygu model gweithlu arloesol a fydd yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru a chreu cyfleon ar gyfer hyfforddiant drwy'r Gymraeg. | ▪ Cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol<br>▪ Darparu'r sgiliau cywir i drigolion lleol ar gyfer cyflogaeth hirdymor<br>▪ Rhoi dyheadau gyrfa i'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn ystyrlon a chyflogaeth hirdymor<br>▪ Cefnogir a thyfu cadwyn gyflenwi leol<br>▪ Y gallu i hyfforddi a datblygu staff meddygol, nyrsio a gofal drwy secondiad a chyfleoedd cysgodi o fewn y ddarpariaeth<br>▪ Bydd sgiliau Cymraeg yr holl staff yn rhan o bolisi recriwtio Cyngor. |
| 5 | I sicrhau llety wedi ei ddylunio'n bwrpasol a fydd yn cwrdd ag anghenion gofal unigolion nawr ac i'r dyfodol. | ▪ Adeiladau ac isadeiledd gwydn a mwy priodol<br>▪ Bydd y datblygiad newydd wedi'i integreiddio'n dda i gymeriad yr ardal gyfagos<br>▪ Darparu amgylchedd gweithio modern, hygyrch sy'n ysgogi gwahanol grwpiau proffesiynol i weithredu ar y cyd<br>▪ Yn darparu gweledigaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau<br>▪ Cyfraniad cadarnhaol tuag at ddatgarboneiddio / agenda di-garbon; Llety sy'n bodloni argymhellion presennol yr adeilad (e.e. HBN / DDA / awyru / atal heintiau)<br>▪ Yn cwrdd â dyheadau BREEAM. |

## 6. FFORDD YMLAEN FFAFRIEDIG

6.1 Mae'r Achos Economaidd yn nodi manylion y broses o ddatblygu opsiynnau ac arfarnu opsiynnau a gwblhawyd gan bartneriaid y prosiect. Mae'r ffordd ymlaen ffafriedig wedi'i adnabod.

6.2 Rydym wedi ymgysylltu â Lovelock Mitchell a Wakemans i wneud y dyluniad, cynllunio ac amcangyfrifon cychwynnol. Mae'r Tabl isod yn darparu ein hamcangyfrifon gorau ar gyfer datblygiad cyffredinol y prosiect, ac eithrio TAW.

| Disgrifiad o'r Gost | £'000 |
|---|---|
| Adeilad newydd - Cartref gofal gyda nyrsio | 9,655 |
| Costau Eraill (Rhagadeiladu, Rhagarweiniau – 15% o'r gost adeiladu) | 1,284 |
| Ffitio allan | 250 |
| 15% wrth gefn a gogwydd optimistaidd | 1,708 |
| 15% Cynnydd Chwyddiant a Lwfans Risg | 1,498 |
| Costau cam datblygu ABA (Rheolwr Prosiect, Dylunio, Cynllunio, datblygu ABA) | 200 |
| **CYFANSWM Y GOST** | **14,595** |

**Noder:**

**A.** Gan gynnwys Lwfans Cynnydd Chwyddiant a Lwfans Risg, lwfans ar gyfer cam datblygu ABA mae cyfanswm yr amcangyfrif cost yn cyfateb i **£14.6 miliwn**

B. Ceisio cyllid grant o **£200,000** yn 2023-24 (amlygwyd mewn ffont coch yn y tabl uchod) i ddatblygu cynllun manwl, amcangyfrif ac Achos Busnes Amlinellol cynhwysfawr.

6.3 Y cam nesaf yw i'r Achos Amlinellol Strategol hwn gael ei brosesu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo ac i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei ddatblygu a fydd yn asesu'r costau economaidd a'r buddion yn fanylach. Ar y cyd â hyn, bydd prosesau dylunio a chynllunio manwl yn cael eu sefydlu. Mae Achos Busnes Llawn yn dilyn o hyn.

6.4 Dyma gerrig milltir y prosiect:

| # | Cerrig Milltir y Prosiect | Dyddiadau mynegol |
|---|---|---|
| A | Cymeradwyaeth Partneriaeth yr ABS | Mawrth 2023 |
| B | Adolygiad LIC o'r ABS a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen | Mai 2023 |
| C | Cychwyn y broses cynllunio | Awst 2023 |
| D | Caniatâd Cynllunio Amlinellol | Mai 2024 |
| E | Cwblhau'r ABA a derbyn cymeradwyaeth fewnol i fwrw ymlaen | Gorffennaf 2024 |
| F | Adolygiad LIC o'r ABA a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen | Medi 2024 |
| G | Cais cynllunio ffurfiol | Medi 2024 |
| H | Cwblhau ABLI a chymeradwyaeth fewnol i fwrw ymlaen | Mawrth 2025 |
| I | Adolygiad LIC o'r ABLI a chymeradwyaeth i fwrw ymlaen | Ebrill 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| J | Adeiladu, cwblhau a throsglwyddo’r adeilad | Medi 2025 – Mawrth 2027 |
| K | Meddianaeth | Ebrill 2027 |

**Ddeddf Cydraddoldeb 2010**
Mae’r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Gymreig). Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cynghorau dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y ddyletswydd gymdeithasol economaidd dan Adran 1 o’r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad E. Mae gofyn i’r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol penodol yn deillio o’r penderfyniad.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi Grantiau Cyfalaf er mwyn hybu integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i gefnogi gwaith ar ail fodelu’r sector gofal. Bydd y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) yn rhoi cyfle i ni wneud cais am £14.6miliwn o arian i ariannu’r datblygiad. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chael mynediad at yr arian yn amserol.

7.2 Symud ymlaen i ddatblygu achos busnes amlinellol tra hefyd yn datblygu dyluniad ar gyfer y cartref a chychwyn y broses cynllunio.

## 8. SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL

**Swyddog Monitro**
“Mae’r argymhellion yn adlewyrchu gwaith sydd wedi digwydd gyda chyngor arbenigol ynglŷn a dichonoldeb cyfreithiol y model sydd yn cael ei argymell. Cyfeiriaf yn benodol at baragraff 2.3.2 o’r Achos Busnes Strategol sydd yn amlygu natur y model fydd angen sefydlu trefn bartneriaeth agos a ffurfiol gyda’r Bwrdd Iechyd. Bydd y gwaith yma yn parhau wrth i’r Achos Busnes ddatblygu ynghyd a chefnogaeth ar agweddau tir ac eiddo. Rwy’n fodlon ar briodoldeb yr argymhelliad.”

**Pennaeth Cyllid**
“Mae’r dull a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu’r dogfennau hyn yn dilyn trefn gydnabyddedig y Model Pum Achos. Fel sy’n cael ei amlygu yn y dogfennau, y cyntaf o dri cam allweddol yw datblygu’r Achos Busnes Strategol. Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo’r ddogfen yma, bydd gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu’r Achos Busnes Amlinellol. Wrth ddatblygu’r cam hwnnw bydd angen mewnbwn pellach o safbwynt Cyllid gan fod angen rhoi sylw manwl iawn bryd hynny i’r Achos Ariannol.

Yn y cyfamser, rwyf yn fodlon fod cynnwys yr Achos Busnes Strategol yn dangos fod gwaith dadansoddi manwl wedi ei gynnal i gyrraedd y pwynt presennol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir, a credaf ei fod yn amserol i gyflwyno achos i Lywodraeth Cymru ar ffurf cais grant.”